# Newid Hinsawdd

## Cefndir

Nod y gweithgaredd cyntaf yw ymchwilio i'r effaith y mae nwyon tŷ gwydr o waith dynol yn ei gael ar yr atmosffer a'r byd drwy gyfrwng arbrawf syml i greu carbon deuocsid a'i ddal.

Erbyn diwedd y sesiwn, dylai'r dysgwyr fedru:

- Deall beth yw'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu cynhyrchu gan bobl yn bennaf ac o ble maent yn dod
- Arsylwi effeithiau gormod o garbon deuocsid yn yr atmosffer drwy arbrawf rheoledig
- Cymhwyso eu harsylwadau i'r byd o'u cwmpas.

Gweithgaredd chwarae yw'r ail un, sydd â'r nod o helpu dysgwyr i ddeall ystyr y term 'Sero Net' drwy newid y ffordd y maent yn symud 'nwyon tŷ gwydr' i'r 'atmosffer' mewn ymateb i ffynonellau allyriadau a datrysiadau.

Erbyn diwedd y sesiwn, dylai'r dysgwyr fedru:

- Dangos cydbwysedd y nwyon tŷ gwydr o waith dynol yn yr atmosffer ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- Deall amryw ffyrdd y gall newid gweithgaredd dynol helpu wrth fynd i'r afael â chynhesu byd-eang.

## Termau Defnyddiol

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Nwy Tŷ Gwydr | Nwy sy'n medru dal ac allyrru'r gwres isgoch sy'n dod o'r ddaear wrth adlewyrchu gwres yr haul. |
| Carbon Deuocsid | Y nwy tŷ gwydr sy'n bennaf gyfrifol am gynhesu byd-eang o waith dynol, a hynny o ganlyniad i losgi tanwydd ffosil. |
| Newid Hinsawdd | Newid hirdymor yn nhymheredd cyfartalog y Ddaear a'r tywydd. |
| Cytundeb Hinsawdd Paris | Cytundeb byd-eang rhwng 195 o bartïon dan nawdd y Cenhedloedd Unedig i gyfyngu ar gynhesu byd-eang. Cymeradwywyd y cytundeb a'i lofnodi ym Mharis yn 2015. |
| Sero Net | Sefyllfa ble mae swm y nwyon tŷ gwydr a gaiff eu hallyrru i'r atmosffer yn hafal i swm y nwyon tŷ gwydr a gaiff eu gwaredu gan fyd natur a thrwy ddal a storio carbon. |
| Lefelau Cyn-ddiwydiannol | Defnyddir y term hwn wrth gymharu allyriadau a thymheredd yn y gorffennol er mwyn mesur y newid. Mae 'cyn-ddiwydiannol' fel arfer yn sôn am ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. |

## Dolenni ac Adnoddau

**Cefndir a Diffiniadau**

BBC Bitesize – Beth yw Newid Hinsawdd?

BBC Bitesize – Beth yw Sero Net?

Cytundeb Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig

Arbrawf Coleg Imperial Llundain – ffynhonnell wybodaeth ar gyfer y cynllun gwers yn y pecyn adnoddau.

**Adnoddau Newid Hinsawdd Cyngor Sir y Fflint:**

Hafan Newid Hinsawdd

Pecynnau Cymorth yr Hinsawdd

**Llywodraeth Cymru**

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru